SUL CYFFREDIN 28

JOSUA 24:1-3A, 14-25; SALM 78:1-7;
1 THESALONIAID 4:13-18; MATHEW 25:1-13

● **Gweddi agoriadol**

I'th bresenoldeb y down,
i addoli o'n calon;
dy blant mewn perthynas
â'u Tad nefol,
gan ddwyn ein hoffrwm moliant
a gwasanaeth ein bywydau.

● **Moliant**

Ym mhob cenhedlaeth
dyrchafwyd dy enw,
cyhoeddwyd dy ffyddlondeb
gan broffwyd, offeiriad a brenin.
Ac at gorws
dy saint ym mhob oes
ychwanegwn harmoni ein moliant.
Oherwydd fe'n dygaist
o lefydd anial
i borfeydd bras
a lle diogel
y tu mewn i'th deyrnas,
lle mae dy gariad,
dy ras a'th dangnefedd
yn eiddo i bawb sy'n dy wasanaethu
yn Arglwydd ac yn Dduw.

● **Cyffes**

Gweision gwael ydym yn aml
yn dy deyrnas, Arglwydd;
maddau ein harafwch
i rannu dy lwyth.

Boed i'n calonnau wastad fod yn barod
i gael eu cynhyrfu gan anghyfiawnder.
Boed i'n dwylo wastad fod yn barod
i rannu baich y dieithryn.
Boed i'n traed wastad fod yn barod
i gerdded yr ail filltir.
Boed i'n balchder wastad fod yn barod
i gael ei ostwng cyn i ni syrthio.
Boed i'n cariad wastad fod yn barod
i gael ei rannu gyda'r rhai mewn angen.
Boed i'n bywydau wastad fod yn barod
i fod yn lamp yn y byd tywyll hwn.

Rydym yn aml yn weision gwael
yn dy deyrnas, Arglwydd;
maddau ein harafwch,
ac ysbrydola ni, yw'n gweddi.

● Diolch

Rhown ddiolch i ti
am bob cenhedlaeth
sydd wedi trosglwyddo
y newydd da
na wnest ti,
Creawdwr y bydysawd, orffwys
unwaith y gorffenwyd y gwaith,
ond parhau
yn ddi-baid
yn y galon ddynol,
yn creu'r bobl
    y bwriadwyd i ni fod,
drwy drugaredd a gras
a'n Gwaredwr, Iesu Grist.